

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Awst 2012 (9:30a.m.)

PRESENNOL:

Aelodau Annibynnol

Mr Michael Wilson (Cadeirydd);
Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd);
Ms Denise Harris Edwards;
Mr Leslie Lord;
Mrs Dilys Shaw

Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Y Cyngorydd Ieuan Williams;

WRTH LAW:

Mr Peter Keith Lucas, Ymgynghorydd Cyfreithiol;
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor;

Ms A Ginwalla, Ymchwilydd, Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru
Mr Gwydion Hughes, Cwnsler i'r Ombwdsmon

Mr B Durkin (yn cynrychioli ei hun)

Mr D Lewis Roberts (achwynydd)

YMDDIHEURIADAU:

Y Cyngorydd Trefor Lloyd Hughes

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog.

2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Dyweddodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor wedi bwrw ymlaen hyd yn hyn ar y rhagdybiaeth y gallai gwybodaeth bersonol gael ei datgelu mewn perthynas â'r ddau barti yn y gwrandawriad. O'r herwydd, nid oedd y weinyddiaeth wedi darparu papurau i'r cyhoedd na'r wasg cyn y gwrandawriad.

Dyweddodd Mr Barrie Durkin ei fod yn gwrthwynebu cynnal y cyfarfod yn breifat oherwydd bod y Cyngor Sir wedi cynnwys y dogfennau ar ei wefan yn dilyn cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Safonau ar y mater hwn. Roedd y wybodaeth eisoes yn y maes cyhoeddus felly. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa'n parhau ac roedd yn credu'n wirioneddol ei fod mor anfanteisiol ac annheg i'r Pwyllgor Safonau orfod delio gydag ef, ei fod yn teimlo na ddylai'r achos fynd yn ei flaen.

Dyweddod yr Ymgynghorydd Cyfreithiol fod elfen yn y copi llawysgrif o ddatganiad tyst Mr D Lewis-Roberts i Ymchwilydd yr Ombwdsmon (mewn perthynas â materion yn ardal Awdurdod arall flynyddoedd lawer yn ôl) a oedd yn amherthnasol i'r materion gerbron y gwrandawriad heddiw a'i bod yn rhesymol i'r Pwyllgor fwrw ymlaen be bai'r aelodau yn rhoi'r elfen honno allan o'u meddyliau. Pe bai Mr Durkin yn credu bod y canlyniad wedi ei ragfarnu gan yr elfen honno, byddai'n medru herio hynny ar ôl y digwyddiad trwy gyflwyno apêl i Banel Dyfarnu Cymru.

Roedd y Pwyllgor yn ystyried ei fod mewn sefyllfa i ystyried y mater yn deg ac i anwybyddu'r elfen o'r adroddiad llawysgrif.

Dyweddod Mr Gwydion Hughes, Cwnsler i'r Ombwdsmon, fod y materion a oedd gerbron y Pwyllgor heddiw yn cyfeirio at wybodaeth bersonol mewn perthynas â Mr D Lewis-Roberts ac y dylid gofyn iddo ef hefyd am ei farn ynghylch y posibilrwydd o ymdrin â'r mater yn gyhoeddus.

Dyweddod Mr D Lewis-Roberts nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i gynnal y gwrandawriad yn gyhoeddus.

PENDERFYNWYD cynnal y cyfarfod mewn sesiwn agored.

Aeth y Cadeirydd ymlaen i ddweud ei fod yn deall, o'r papurau cyn-gwrandawriad, nad oedd Mr Durkin yn anghytuno a'r ffeithiau a nodwyd yn adroddiad yr Ombwdsmon, ond ei fod yn anghytuno gyda'r casgliadau. Dywedodd y Cadeirydd hefyd bod yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, o'r bwndel o bapurau, wedi paratoi tystiolaeth gronolegol o ffeithiau mewn perthynas â'r digwyddiadau (Tudalennau 1-5) a fyddai'n osgoi'r angen i'r Pwyllgor chwilio trwy'r bwndel o bapurau.

Cyn y gwrandawriad, rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wrando ar recordiad o'r cyfweiliad gyda Mr D Lewis-Roberts fel rhan o raglen ITV "Wales this Week" a ddarllledwyd ar 3 Tachwedd 2008 ac yr oedd Mr Durkin wedi gwneud ei sylwadau fel ymateb iddi.

3 CWYN YN ERBYN CYN-GYNGHORYDD SIR

Cynhaliwyd y gwrandawriad yn dilyn cwyn yn erbyn cyn-Gynghorydd ar honiad ei fod wedi torri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac wedi i'r mater gael ei gyfeirio wedyn i'r Pwyllgor Safonau yn unol ag Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, byddai'r Pwyllgor yn penderfynu pa gosb, os o gwbl, i'w phennu yn unol â Pharagraff 9(1) Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001. Roedd copi o'r drefn ar gyfer y Gwrandawriadau Safonau Lleol hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i gasgliadau yn ogystal â chylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn y cyswllt hwn.

Ar ôl ystyried yr holl gyflwyniadau, mater i'r Pwyllgor fyddai penderfynu pa nodweddion lliniaru ac / neu waethygu y byddai'n eu cymryd i ystyriaeth a faint o bwys i'w briodoli i bob un. Dylid cynnwys y materion hyn yn y penderfyniad a gyhoeddir gan y Pwyllgor.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys manylion am yr hawl i apelio / herio a'r gofynion statudol o ran cyhoeddi.

Rhodddwyd cyfle i Mr Gwydion Hughes, Cwnsler i'r Ombwdsmon, grynhoi'r casgliadau yn adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yr honiad yr ymchwiliwyd iddo oedd cwyn a dderbyniwyd ar 20 Ebrill 2010 gan Mr David Lewis-Roberts fod y Cynghorydd Barrie Durkin wedi methu â glynu wrth y côd ymddygiad ar gyfer aelodau Cyngor Sir Ynys Môn. Honnwyd bod y Cynghorydd Durkin wedi anfon e-bost ar 6 Ebrill 2010 i nifer o bobl gan gynnwys Cynghorwyr Sir, Cadeirydd y Bwrdd Adfer a staff y Cyngor yn gwneud sylwadau difriol yn erbyn Mr D Lewis-Roberts.

Roedd yr achwynydd wedi honni nad oedd y sylwadau yn wir ac, wrth eu gwneud, fod y Cynghorydd Durkin wedi torri nifer o baragraffau yn y Côt Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Wedi hynny, derbyniodd yr Ombwdsmon wybodaeth ychwanegol gan Mr Lewis-Roberts ar 27 Ebrill 2010 bod y Cynghorydd Durkin wedi gwneud rhagor o sylwadau anwir ac nad oedd sail iddynt amdano ar flog lleol "The Druid of Anglesey" dyddiedig 25 Ebrill 2010.

Soniodd Mr Gwydion Hughes bod adroddiad terfynol yr Ombwdsmon ar 30 Awst 2011 wedi casglu bod tystiolaeth 'prima facie' bod y côd wedi ei dorri gan y Cynghorydd B Durkin ar y pryd a bod yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Safonau am sylw. Hanfod y casgliadau oedd bod y geiriau penodol a ddefnyddiwyd gan y Cynghorydd B Durkin ar y pryd yn ei e-bost ar 6 Ebrill 2010 ac ar flog y Druid ar 25 Ebrill 2010 yn mynd yn bell y tu hwnt i feirniadaeth neu sylwadau yr oedd sail iddynt mewn perthynas ag ymddygiad Mr D Lewis-Roberts yn y cyfnod pan oedd yn Gyngorydd. Yn hytrach, roedd y geiriau a ddefnyddiwyd yn honiadau difrifol iawn, sef honiadau o lygredd, o lygredd ar ran y Pwyllgor Cynllunio cyfan a throseddoldeb, a oedd i bob bwrpas, yn gyfystyr â thwyll a oedd yn arwain at fudd personol sylweddol.

Ar ran yr Ombwdsmon, galwodd Mr Gwydion Hughes ar Mr Dewi Francis Jones, Rheolydd Datblygu Cynllunio, a gyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r isod:- (Datganiad tyst llawn ar Dudalennau 345-352 yn y bwndel o bapurau).

- * Y polisiâu cynllunio perthnasol a'r llinell amser ar gyfer eu datblygu a'u cymeradwyo;
- * Nodi unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl ar dir cyfagos yng nghyffiniau Tyn-y-Gongl a Brynteg, ac yn enwedig Shepherd's Hill dros y cyfnod hwn;
- * Cadarnhau yn erbyn pob cais a oedd Mr Lewis-Roberts yn y Pwyllgor Cynllunio pan gafodd y cais ei ystyried ac a oedd wedi datgan diddordeb yn yr eitem neu dynnu'n ôl o'r drafodaeth arni ac a oedd y penderfyniad yn gosod unrhyw fath o gynsail ar gyfer tir Mr Lewis-Roberts;
- * Nodi'r hanes cynllunio mewn perthynas â thir Mr Lewis-Roberts;
- * Y diffiniad o glwstwr neu dreflan.

Rhodddwyd cyfle i Mr Gwydion Hughes ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau i ofyn cwestiynau i'r Rheolydd Datblygu Cynllunio.

Ar ran yr Ombwdsmon, galwyd Mr D Lewis-Roberts (achwynydd) gan Mr Gwydion Hughes a gofynnwyd cwestiynau iddo gan Mr Gwydion Hughes, Mr Peter Keith Lucas ac aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Gellid crynhoi'r cwestiynau a ofynnwyd i Mr Lewis-Roberts fel a ganlyn:-

- * ei fethiant i gofrestru datganiadau o ddiddordeb;
- * ei ddiddordeb mewn 9 erw o dir i'r gogledd o Pant y Bugail, Tyn-y-Gongl a'i opsiwn i brynu 11 erw ychwanegol o dir (Tudalen 384 y papurau);
- * ei aelodaeth o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a roddodd sylw i faterion mewn perthynas â thai yn y cefn gwlad a'r diffiniad o glystyrau;
- * pellter rhwng ceisiadau galw i mewn;
- * y ffaith iddo gyflwyno tir yn Shepherd's Hill, Tyn-y-Gongl ar Gofrestr o Safleoedd Posib gan ddatblygwyr, tirfeddianwyr a'r cyhoedd i'w gynnwys o bosibl o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ;
- * ei resymau am alw i mewn oddeutu 9-10 o geisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio.

Dygodd Mr D Lewis-Roberts sylw'r Pwyllgor at anghysondebau / anghywirdebau yn y ddogfen gronolegol a chafwyd trafodaethau yn y cyswllt hwn a nodwyd unrhyw gywiriadau gan y Pwyllgor.

Darllenwyd allan gan Mr Lewis-Roberts drawsgrifiad o'r hyn yr oedd y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) wedi ei ddweud mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio ar 2 Chwefror 2006, o ran y diffiniad o glystyrau, pan oedd y Pwyllgor yn rhoi sylw i gais yn Bwthyn ar y Bryn, Benllech (cais Rhif 1 yn y bwndel o bapurau).

Gofynnodd y Cadeirydd am i'r Pwyllgor gael copïau o'r trawsgrifiad fel y gellid ei ystyried fel rhan o'r trafodaethau yn y sesiwn breifat.

Pan holwyd ef ynghylch y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Mr D Lewis-Roberts heddiw, dywedodd Mr Durkin y byddai fod wedi hoffi gweld y dogfennau ynghylch prynu'r 9 erw o dir yn y bwndel o bapurau. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ynghylch sut na phryd y prynwyd y tir hwnnw.

Yna, rhoddwyd cyfle i Mr Durkin wneud cyflwyniad llafar mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod efallai wedi methu â chydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad y Cyngor Sir. Dywedodd Mr Durkin nad oedd yn anghytuno gyda'r ffeithiau a gyflwynwyd gan yr Ombwdsmon ond ei fod yn anghytuno gyda sut roedd ei ddatganiadau wedi cu camddechongli.

Rhoddodd Mr Durkin dystiolaeth fanwl i'r Pwyllgor Safonau ynghylch pam yr oedd wedi gwneud yr hyn a wnaeth a pham yr oedd yn credu nad oedd opsiwn arall ar gael iddo er mwyn dwyn y mater i sylw'r Cyngor a'r cyhoedd.

Roedd yn credu bod y sylwadau a wnaeth wedi eu camddechongli oherwydd nad oedd yn credu am un funud fod y Pwyllgor Cynllunio wedi bod yn llwgr yn y mater hwn. Roedd ei fwiriadau yn anrhydeddus gan ei fod yn dymuno i'r Cyngor gael gwared â'r fath anfri ac enw drwg.

Cododd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol ac aelodau'r Pwyllgor Safonau nifer o gwestiynau gyda Mr Durkin y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:-

- * ei atgof ef o'r digwyddiadau;
- * pam yr oedd wedi gwneud y sylwadau hynny yn dilyn darlledu'r rhaglen ar ITV;
- * a oedd yn ystyried ei fod yn gweithredu yn ei swyddogaeth fel Cynghorydd Sir pan anfonodd y llythyr a phan wnaeth ei sylwadau ar flog y Druid;
- * ei berthynas gydag uwch reolwyr ar y pryd ac a oedd yn ystyried fod ei gwynion wedi cael sylw gan y Cyngor ai peidio;
- * nad oedd yn ymwybodol ei fod wedi cael cynnig hyfforddiant mewn perthynas â'r côd ymddygiad ers iddo gael ei ethol, a oedd yn groes i'r dystiolaeth yn y bwndel o bapurau;
- * a oedd yn ystyried ei fod wedi torri'r côd ymddygiad ar gyfer aelodau;

Cafwyd datganiad cloi byr gan y Cwnsler i'r Ombwdsmon cyn i'r Pwyllgor ymneilltuo i sesiwn breifat.

Yn dilyn cyfeiriad gan Mr Durkin at bapurau yn eu meddiant nad oeddent yn rhan o'r bwndel o bapurau gerbron y Pwyllgor heddiw, gofynnwyd i'r Rheolydd Gwasanaethau Pwyllgor roi copïau o'r papurau hynny i'r Pwyllgor fel rhan o'u trafodaethau yn y sesiwn breifat.

Ymneilltuodd y Pwyllgor Safonau i sesiwn breifat i ystyried ei benderfyniad.

Dychwelodd y Pwyllgor Safonau i sesiwn agored a chyhoeddodd y Cadeirydd fod yr Aelodau wedi dod i benderfyniad unfrydol ar y mater. Yn y cyfarfod darllenodd allan yr Ymgynghorydd Cyfreithiol grynodedb o'r penderfyniadau a wnaed a fyddai wedyn yn eu teipio a'u hanfon at y partïon sydd â diddordeb cyn gynted ag y bo modd.

PENDERFYNWYD

•Nid oes unrhyw dystiolaeth fod Mr Barrie Durkin wedi methu â chydymffurfio gyda Pharagraff 4(b) y Côt Ymddygiad ar gyfer Aelodau;

•Nid oes unrhyw dystiolaeth fod Mr Barrie Durkin wedi methu â chydymffurfio gyda Pharagraff 6(1)(a) y Côt Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

4. INDEMNIAID

Ystyriwyd – A ddylid ad-dalu indemniad yn unol ag Erthygl 8(5) Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006.

Yn sgil casglu nad oedd Mr Durkin wedi torri'r Côt Ymddygiad, PENDERFYNWYD bod yr indemniad yn sefyll ac y gallai Mr Durkin felly adennill ei gostau cyfreithiol dan yr indemniad hwnnw.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:00pm

MR MICHAEL WILSON (CADEIRYDD)

Drafft